CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CHWEFROR 11, 2020

www.cyngorllanelltyd.cymru

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Chwefror 11, 2020 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Geraint Rowlands, Gareth Ellis, Carwyn Evans, Elfed ap Gomer, Llinos Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: John Hughes, Gethin Williams, Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Mae Elfed ap Gomer yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 5.e. 'Cymdeithas Y Dydd'.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 10, 2020

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 14, 2020

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.
Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency), i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.
Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.
Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Adroddiad (5/2/2020) gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi gwybod dim ond 66% o'r 486 gynghor cymuned cyhoeddwyd eu cyfrifon yn yr amser roedd angen gan y gyfraith. Mae'r wybodaeth wedi cael ei roi i'r wasg.

c. Llythyr (12/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2020 / 2021. Tâl Aelodaeth yw £94.

Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Llythyr (8/1/2020) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Maent angen cymorth arianol.

d. Llythyr (29/1/2020) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Canolfan Therapi Plamt Bobath Cymru, Marie Curie, Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 bydd yn cael ei gynnal yn Abergynolwyn, Dawns i Bawb, Cwmni Theatr Bara Caws Cyf, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych, Cymdeithas Undebol Machreth (angen diffibriliwr), Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

e. Llythyr (26/11/2018) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137 y Terfyn ar Gyfer 2019-20. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 £8.12, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £8.12 x 378 = £3,069.36.

<u>Penderfynwyd</u> rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
- Cyngor ar Bopeth, Gwynedd - £100
- Ambiwlans Awyr Cymru - £150
- Cymdeithas Y Dydd - £50
- Ysgol Feithrin Dolgellau - £100

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
- Cwmni Theatr Bar Caws Cyf - £50
- Treialon Cŵn Defaid Cenedlaethol Cymru 2020 - £50

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):
- Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £50
- Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau - £50

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):
- Neuadd Bentref Bontddu: - £500
- Neuadd Bentref Llanelltyd - £500

Cyfanswm: £1,600

f. Llythyr (21/1/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau canllaw syml i gefnogi Cynghorau gyda'r prif dasgau ariannol y mae angen eu cyflawni trwy gydol y flwyddyn.

ff. Siec (10/2/2020) am £1,412.50 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Roland Bodley Gauntlett - claddedigaeth cyntaf £650 + hawl claddu £480 = £1,130 + 25% = £1,412.50.

g. Balans yn y banc ar 29 Ionawr 2020: £9,789.04.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/65/122A. Trosi allandy yn anecs preswyl. Cae Clyd, Llanelltyd. Penderfynwyd cefnogi'r cais (21/1/2020).

2. NP5/65/31B. Adeiladu estyniad ochr deulawr. 11 Bro Cymer, Llanelltyd. Penderfynwyd cefnogi'r cais.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (17/1/2020) oddi wrth Gwaith Aur Clogau St Davids yn rhoi gwybod eu bwriad i barhau ymchwilio i'r posibilrwydd o ail agor y gwaith yn Bontddu. Maent angen sylw o'r Cyngor ar y bwriad. Angen gwybod manteision ail agor y gwaith.

b. Llythyr (21/1/2020) oddi wrth Mabon ap Gwynfor, Plaid Cymru yn diweddaru ynghylch yr ymdrech i sefydlu canolfan ddeiagnostic canser yng Ngwynedd. Mae rhan fwyaf o'r cynghorau tref a chymuned wedi dangos cefnogaeth. Mae disgwyl adroddiad gan y Llywodraeth ym mis Mai ar y mater.

c. Llythyr (23/1/2020) oddi wrth Cyngor Gwynedd gyda chopi o lythyr gan BT yn rhoi eu rhaglen i ddileu rhai ffonau talu cyhoeddus. Ar y rhaglen mae caban ffôn coch cyhoeddus Bontddu ac maent angen gwybod os mae ei angen neu i'r cyngor ei fabwysiadu am £1. Rhif y ffôn yw 01341 430 361. Mae BT wedi gosod hysbysiad ymgynghori ar y caban. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 20/4/2020. Mae'r Cyngor angen ein sylwadau erbyn 6/4/2020.

ch. Llythyr (24/1/2020) oddi wrth Clerc Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod gwaharddiad defnydd dros dro ar lwybr march rhif 68 yng nghymuned Llanelltyd a rhan o lwybr march rhif 34 yn nhref Abermaw. Mae'r gorchymyn yn dod i rym ar Chwefror 17, 2020 am 6 mis. Mae'r gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd yn ystod gwaith torri / clirio coed. Disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn 9 mis. Amgáu mae manylion yr orchymyn a map yn dangos y llwybr.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Cafwyd gwybod (6/1/2020) am ddamwain oedd ar ffordd A496 yn Bontddu gyda char yn llithro o'r ffordd i lawr banc a tharo tŷ Mrs Beryl Jones, Tanybryn.

Trefnwyd cael cyfarfod ar y safle gyda swyddogion Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ystyried cael ffens diogelwch ar ochr y ffordd. Roedd y cyfarfod ar 10/1/2020 am 2.30yp. Cafodd Carwyn Evans, Gethin Williams a Henry Edwards gwahoddiad i'r cyfarfod gan Peredur Jenkins.

Yn y cyfarfod roedd Peredur Jenkins a Henry Edwards yn bresennol gyda dau swyddog o Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Cafwyd gwybodaeth am y ddamwain gan Mrs Beryl Jones. Mae'r swyddogion am archwilio cynllun i ddiogelu Tanybryn o'r traffic ar y ffordd.

10. Materion Brys

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen sgubo ffyrdd: Cwm Hirgwm, Cwm Mynach / Taicynhaeaf, Cwm Wnin a ffordd sy'n mynd heibio Cymmer Abbey i gyfeiriad Dol-y-Clochydd.

b. Penderfynwyd rhoi ail gynnig i wella'r llwybr cyhoeddus sy'n arwain o gyffordd Llanfachreth / y ffordd i hen bont Llanelltyd i'r golff. Mae'r gwaith yn golygu clirio dail a phridd oddi ar wyneb y llwybr i'w gael yn ôl i'w lawn led. Penderfynwyd hefyd gwneud ymoliadau â Ivor Thompson a Muerig Ashton i gael gwybod os maent yn dal a diddordeb gwneud y gwaith; derbyniwyd pris gan Muerig Ashton i wneud y gwaith. Gweler Eitem 10.a. yn Cofnodion Ionawr 8, 2019, ac Eitem 5.i. yn Cofnodion Mawrth 12, 2019.